# Beth yw Uned Adsefydlu?

Mae hon yn uned arbenigol sy'n canolbwyntio ar eich trin chi wrth adfer o anaf neu salwch.



GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

Mae adsefydlu'n broses addysgol a therapiwtig lle byddwch yn dysgu ac yn datblygu sgiliau sydd wedi'u cynllunio i wneud y canlynol:

- Eich helpu chi gyflawni eich nodau adsefydlu personol
- Cyflawni eich lefel fwyaf diogel o annibyniaeth
- Eich helpu chi gymryd rhan yn eich bywyd personol, teulu a chymunedol..

## Beth i'w ddisgwyl tra'ch bod chi yma?

Mae'r daith Adsefydlu yn cynnwys gosod nodau a monitro cynnydd. Mae'n ddefnyddiol meddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi a'r hyn rydych chi am ei gyflawni. Bydd hyn yn eich ysgogi tuag at gyflawni canlyniad adsefydlu llwyddiannus. Efallai y byddwch am gynnwys eich teulu, gofalwyr neu eraill sy'n agos atoch mewn penderfyniadau am hyn. Bydd y tîm Adsefydlu yn eich cefnogi i osod nodau a chynlluniau gweithredu.

Gallai enghreifftiau o nod hirdymor fod:

- **i fyw'n annibynnol gartref;**
- **i ddychwelyd i hobïau, gwaith, gyrru;**
- **i wella eich symudedd;**
- **i wella eich sylw, cof neu gyfathrebu.**

Er mwyn cael y gorau o'r adsefydlu mae'n bwysig eich bod yn mynychu sesiynau therapi ac yn dilyn eich rhaglen adsefydlu. Mae hyn yn cynnwys sesiynau unigol a sesiynau grŵp yn ogystal ag unrhyw dasgau hunan-arweiniad rydych chi wedi'u derbyn.

Yn ystod eich arhosiad, byddwch yn cael 'gweithiwr allweddol' a fydd yn brif bwynt cyswllt drwy gydol eich cyfnod yma. Maen nhw yno i helpu cydlynu gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch anghenion gofal neu adsefydlu rhwng holl aelodau eraill y tîm dan sylw.

Er mwyn bod yn barod i gael eich rhyddhau yn y pen draw, bydd trefnu a chynllunio eich rhyddhad yn dechrau'n gynnar yn ystod eich amser yn yr uned a bydd dyddiad rhyddhau amcangyfrifedig yn cael ei bennu.

## Aelodau'r Tîm

Yn ystod eich amser yn yr uned byddwch yn cael eich asesu a thrin gan wahanol aelodau'r tîm Adsefydlu fel y bo'n briodol.

- **Meddyg Teulu neu Ymgynghorydd**
- **Nyrsys Cofrestredig**
- **Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd**
- **Niwroseicolegydd**
- **Rheolwr y Ward**
- **Clerc y Ward**
- **Ffisiotherapyddion**
- **Therapyddion Galwedigaethol**
- **Cynorthwywyr therapi adsefydlu**
- **Therapyddion iaith a lleferydd**
- **Cynorthwywyr therapi iaith a lleferydd**
- **Deietegwyr**
- **Tîm Fferyllol**
- **Gwasanaethau Cymdeithasol**
- **Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO)**
- **Myfyrwyr o wahanol broffesiynau**

## Ymweld

Mae croeso i deulu, ffrindiau a gofalwyr ymweld â chi tra byddwch yma. Rydym yn eich annog i gynnwys y bobl sy'n bwysig i chi er mwyn eich cefnogi chi. Byddwn yn gofyn yn garedig i ymwelwyr aros nes bod sesiwn therapi wedi dod i ben nes y gallwch weld eich ymwelwyr, ond byddem yn fwy na pharod iddynt gael eu cynnwys yn eich sesiwn.

Fel arfer, mae'r oriau ymweld rhwng 13:30-16:30 a 18:30-20:00. Gall fod ychydig o hyblygrwydd o amgylch yr amseroedd hyn ac os oes angen i chi ymweld am amser gwahanol, siaradwch ag aelod o'r tîm. Rydym yn annog defnyddio dyfeisiau digidol ar gyfer galwadau fideo a gallwch naill ai ddod â'ch rhai eich hun neu fenthyg ein rhai ni. Bydd WIFI ar gael i chi.

Fel rhan o'ch adsefydlu, gallwch dreulio amser oddi ar y ward. Trafodwch yr opsiwn hwn gyda'r staff gan fod angen i hyn fod yn rhesymol er mwyn iddo beidio ag effeithio'n negyddol ar eich adsefydlu.

## Eitemau defnyddiol i'w cael gyda chi

- **Mae'n bwysig teimlo'n actif ac yn frwdfrydig trwy gydol eich amser yn yr uned. Rydym yn eich annog i sicrhau bod gennych yr eitemau canlynol gyda chi:**
- **Dillad i'r dydd, gan gynnwys siaced awyr agored, menig ac ati yn ôl y tymor a bydd dillad a siorts llac hefyd yn ddefnyddiol ar gyfer sesiynau therapi**

- **Dillad nos a dillad isaf**
- **Esgidiau cyfforddus a chefnogol fel trenyrs**
- **Nwyddau ymolchi fel siampŵ, jel cawod, past dannedd, brwsh dannedd ac ati**
- **Cymhorthion cyfathrebu (e.e. sbectol, cymorth clyw, ffolder cyfathrebu)**
- **Ffôn symudol a gwefrydd i gadw mewn cysylltiad.**

Trafodwch gyda'r staff os oes unrhyw beth ychwanegol yr hoffech ddod i mewn â chi.





## Ystyriaethau eraill

- **Bydd angen i chi drefnu golchi dillad eich hun naill ai drwy deulu, ffrindiau neu ofalwyr neu mae opsiwn i dalu i gael eich dillad wedi'u golchi drwy asiantaeth breifat. Gall y tîm roi gwybodaeth i chi ar sut i drefnu hyn.**
- **Os oes gennych angen crefyddol penodol, rhowch wybod i ni er mwyn i ni allu hwyluso hyn i chi.**
- **Gall ymweliadau gan anifeiliaid anwes fod yn bwysig iawn. Ni allwn ganiatáu iddyn nhw ddod i mewn i'r uned ond rydym yn fwy na pharod i'w croesawu i ardal awyr agored yr uned.**
- **Mae gan yr ysbyty bolisi dim ysmygu, mae hyn yn cynnwys yr ardal awyr agored, yr ardal barcio a'r holl dir arall. Mae gennym wasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu, felly cysylltwch â staff os hoffech gael y mewnbwn hwn.**

## Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n barod i adael yr Uned Adsefydlu?

Dim ond rhan o'ch taith adsefydlu yw eich amser yn yr uned. Unwaith y bydd asesiadau wedi'u cwblhau a bod eich lleoliad rhyddhau wedi'i nodi, byddwch yn cael eich trosglwyddo'n briodol.

Mae amgylchiadau pawb yn wahanol felly mae'r hyn y gallai fod angen arnoch chi neu'n fuddiol i chi yn gallu bod yn wahanol i eraill. Er enghraifft;

- **Efallai mai dim ond rhywfaint o gefnogaeth emosiynol neu gymorth i gael eich siopa sydd ei angen arnoch, a gall y sector gwirfoddol helpu gyda hyn.**
- **Efallai y bydd gennych rai anghenion therapi neu nyrsio parhaus y gellir eu parhau gartref felly byddem yn gofyn i wasanaethau cymunedol ymweld â chi gartref.**
- **Efallai y bydd angen cymorth dyddiol arnoch ar ffurf 'pecyn gofal' neu gartref gofal. Os oes angen i chi aros am hyn, byddwn yn eich trosglwyddo i'n Huned Barod i Fynd Adref.**

## Gwybodaeth Ddefnyddiol

**Gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol: 01597 828649 / community.connectors@pavo.org.uk**

Bydd y Cysylltydd Cymunedol lleol yn bresennol ar yr uned ar ddiwrnodau penodol. Byddan nhw'n gallu:

- **• Gwrando arnoch a deall 'beth sy'n bwysig' • Eich helpu chi gyrchu gwasanaethau lleol a gwneud synnwyr o'r hyn sydd ar gael • Eich cysylltu chi â grwpiau a gweithgareddau yn eich ardal**
- **Gweithio gyda chi a'ch teulu**
- **Eich cysylltu chi â sawl sefydliad y 3ydd sector gan gynnwys Y Groes Goch Brydeinig: Cymorth Powys yn y Cartref, Age Cymru Powys, Credu (Gofalwyr), Gofal a Thrwsio Powys, Cyngor ar Bopeth Powys, Gwasanaeth Cyfeillio Powys a llawer mwy**

Gofynnwch i siarad â'r Cysylltydd Cymunedol pan fyddant yn yr unedau.

**Y Tîm Cynghori Ariannol: Am gymorth, cysylltwch â 01597 826618 neu drwy wrteam@powys.gov.uk**

Mae'r Tîm Cynghori Ariannol yn rhoi arweiniad ar gyllidebu, rheoli dyledion, sicrhau'r mwyaf o fudd-daliadau ac opsiynau cymorth ariannol.

**Cyngor ar Bopeth Powys: 0345 6018421**

Mae Cyngor ar Bopeth Powys ar agor i alwyr o Bowys, ddydd Mawrth, Mercher a dydd Iau rhwng 9yb a 3yp. Os byddwch yn gadael eich manylion a neges fer, byddant yn dychwelyd eich galwad. Ar gyfer gwasanaeth cyfnewid testun defnyddiwch 18001 08082 505720

Gallwch hefyd ddefnyddio eu ffurflen ar-lein yn www.powyscitizensadvice.org.uk neu fynychu sesiwn allgymorth leol gyda ni.

Maen nhw'n darparu gwybodaeth a chyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol am ddim ar ystod o faterion, gan gynnwys:

- **Budd-daliadau**
- **Cyngor ar ddyledion**
- **Cyngor am ynni**
- **Gwaith**
- **Cyngor i ddefnyddwyr a mwy**

## Manylion Cyswllt

### Y Drenewydd

Uned Adsefydlu Brynheulog Clafdy Sirol Maldwyn Ffordd Llanfair Y Drenewydd Powys SY16 2DW

**01686 617214**

### Aberhonddu

Uned Adsefydlu Epynt Ysbyty Coffa Rhyfel Sir Frycheiniog Heol Cerrigcochion Aberhonddu Powys LD3 7NS

**01874 615741**



GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board